

# Month of the Military Child
# Mis y Plentyn Milwrol

April/Ebrill | #MotMCCymru

## BWLETIN YSGOL MISOL – EBRILL 2023



### Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (Dwyrain Cymru)

*"Mae Mis Ebrill wedi cyrraedd ac rydym yn hynod gyffrous i fod yn dathlu Mis y Plentyn Milwrol. Cysylltwch â ni a rhowch wybod i ni beth fydd eich ysgol yn gwneud i'w ddathlu! Mae sesiynau CPD ar gyfer mis Ebrill ar gael ar ein gwefan, ac mae'r rhain yn ffordd wych i staff eich ysgol ddysgu mwy am brofiadau plant Milwyr a sut y gall SSCE Cymru eich cefnogi. Rydyn ni'n dal i geisio adnabod mwy o blant Milwyr mewn ysgolion ar draws Dwyrain Cymru, os nad ydych eto wedi rhannu niferoedd plant eich Milwyr, cysylltwch â ni i roi gwybod i ni, rydym yn gwerthfawrogi pob cyfle i weithio gydag ysgolion i'ch helpu i gefnogi. Yn olaf, mae PDC yn cynnal Diwrnod Creadigol y Lluoedd ar 19 Ebrill ar gyfer plant milwyr ym Mlwyddyn 11-13, i gofrestru eich diddordeb, cliciwch yma."* **Emilee, Emilee.Kinsey@newport.gov.uk**

### Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Mae mis Ebrill, Mis y Plentyn Milwrol wastad yn gwneud i mi fyfyrio ar ein profiadau ein hunain fel teulu Lluoedd Arfog a pha mor lwcus rydyn ni wedi bod gyda'r rhan fwyaf o'r ysgolion mae ein dau blentyn wedi mynychu. Fel y gallwch ddychmygu symud o gwmpas llawer gyda'r Fyddin, rydym wedi profi ychydig o ysgolion dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae eu Dad yn pontio allan o'r Fyddin, ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth, rwy'n hynod ddiolchgar ein bod wedi dod o hyd i rai ysgolion a staff sydd wedi deall ein ffordd o fyw ac wedi annog ein plant i ddathlu pwy ydyn nhw. Felly, os yw eich ysgol yn ystyried gwneud rhywbeth i adnabod eich plant Milwyr y mis hwn, gwelwch isod am fwy o ysbrydoliaeth a gwybod y bydd rhiant yn rhywle yn ddiolchgar eich bod wedi gwneud."* **Jo, Joanna.wolfe@wlga.gov.uk**

### YSGOLION SY'N CEFNOGI'R LLUOEDD ARFOG

Mae Mis y Plentyn Milwrol yn amser grêt i ysgolion gychwyn weithio tuag at eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru!

**Mwy o wybodaeth yma**

### DIGWYDDIADAU & HYFFORDDIANT

**19eg:** Diwrnod Creadigol Lluoedd PDC
**28ain:** Diwrnod 'Porffor'
**24ain-28ain:** CPD SSCE Cymru
**Unrhyw ddiwrnod:** Gweithdy rhithiol

**Mwy o wybodaeth yma**

### ADNODDAU #MotMCCymru

**Mae anoddau #MotMCCymru SSCE Cymru yn cynnwys:**
- Syniadau i ysgolion
- Syniadau i'w rhannu â theuluoedd
- Baner a delweddau sgwâr
- Cerdd dant
- Digwyddiadau
- Fideos o ddigwyddiadau / gweithgareddau'r gorffennol
- Delweddau
- Astudiaeth achos!

**Ar gael yma**

**Mae'r adnoddau'n cynnwys:**
- Gweithgareddau gartref
- Gweithgareddau ysgol
- Rhodd i blant y Lluoedd Arfog
- Digwyddiadau ar-lein!

**Ar gael yma**

**Cystadleuaeth greadigol 'Ffrindiau'n agos a pell':**
Ar agor 1af - 30ain Ebrill!

**Mwy o wybodaeth yma**